TGAU

# CBAC TGAU
# Ffilm a Chyfryngau Digidol

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Manyleb

Addysgu o 2026
Dyfarnu o 2028

Fersiwn 2 - Medi 2026




Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru sy'n nodi'r gofynion ar gyfer unrhyw gymhwyster TGAU newydd a gymeradwywyd i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2025 a thu hwnt.
- Amodau Cydnabod Safonol sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.
- Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidol sy'n nodi'r gofynion pwnc-benodol ar gyfer Ffilm a Chyfryngau Digidol o fis Medi 2025 a thu hwnt.

**Hawlfraint**
© WJEC CBAC Limited 2025.

# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Bwriad y newidiadau canlynol yw adlewyrchu'r cyfyngiadau sydd ar y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i rai dan 16 oed:<br><br>Uned 2: 2.1.2<br>Tynnwyd 'cyfrifon cyfryngau cymdeithasol' o'r rhestr pwyntiau bwled. Ychwanegwyd 'gwefannau hyrwyddo' at y rhestr o enghreifftiau.<br><br>2.1.3<br>Newidiwyd yr opsiwn 'cynllunio ymgyrch cyfryngau cymdeithasol' i 'cynllunio ymgyrch hyrwyddo'.<br><br>Uned 3: 3.1.2<br>Newidiwyd yr opsiwn 'ymgyrch cyfryngau cymdeithasol' i 'rhaghysbyseb'.<br>Newidiwyd yr opsiwn 'darn o gynnwys gan ddylanwadwr ar Twitch neu YouTube' i 'darn o gynnwys gan ddylanwadwr ar lwyfan fideo neu ffrydio'. | <br><br><br><br><br>20<br><br><br><br>21<br><br><br><br><br>23 |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Cynnwys

CRYNODEB O'R ASESU ........ 5
1 CYFLWYNIAD ........ 7
1.1 Nodau ........ 7
1.2 Cwricwlwm i Gymru ........ 7
1.3 Dysgu blaenorol a dilyniant ........ 8
1.4 Oriau Dysgu dan Arweiniad ........ 9
1.5 Defnyddio iaith ........ 9
1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg ........ 9
2 CYNNWYS Y PWNC ........ 10
Sut i ddarllen yr ymhelaethiad ........ 10
Uned 1 ........ 11
Uned 2 ........ 18
Uned 3 ........ 22
Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu ........ 25
3 ASESU ........ 26
3.1 Amcanion Asesu a Phwysoli ........ 26
3.2 Trefniadau ar gyfer asesiad di-arholiad ........ 27
4 CAMYMDDWYN ........ 29
5 GWYBODAETH DECHNEGOL ........ 30
5.1 Cofrestru ........ 30
5.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl ........ 30
Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ........ 31
Atodiad B: Rhestr Terminoleg ........ 34

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# TGAU FFILM A CHYFRYNGAU DIGIDOL

## CRYNODEB O'R ASESU

| |
|---|
| **Uned 1: Archwilio materion a chysyniadau allweddol**<br>**Arholiad ar-sgrin: 1 awr 30 munud**<br>**30% o'r cymhwyster**<br>**60 marc** |
| **Crynodeb o'r asesu**<br>Bydd y papur yn cynnwys cwestiynau sy'n gofyn am ymatebion gwrthrychol, atebion byr ac estynedig, mewn ymateb i ffilmiau gosod, gêm fideo a astudiwyd a gweithiau'r cyfryngau heb eu gweld o'r blaen. |
| **Uned 2: Strategaethau dosbarthu ac arddangos diwydiannau ffilm a chyfryngau digidol yng Nghymru**<br>**Asesiad di-arholiad: 18 awr**<br>**30% o'r cymhwyster**<br>**72 marc** |
| **Crynodeb o'r asesu**<br>Bydd yr asesiad yn cael ei osod gan CBAC, ei asesu gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC. Bydd yr asesiad, a fydd yn cynnwys briff a dwy dasg, ar gael drwy safle Porth CBAC, a bydd yn aros yr un fath am hyd oes y fanyleb.<br><br>Bydd dysgwyr yn ymchwilio i sut mae cwmni cynhyrchu ffilmiau a/neu gyfryngau digidol sydd wedi'i leoli yng Nghymru yn cynhyrchu, yn dosbarthu ac yn arddangos ei gynhyrchion. Bydd dysgwyr yn creu un strategaeth dosbarthu ac un strategaeth arddangos ar gyfer cynnyrch newydd ar gyfer y cyfryngau digidol wedi'i gynhyrchu gan gwmni cynhyrchu yng Nghymru. |
| **Uned 3: Creu cynnwys ffilm a chyfryngau digidol**<br>**Asesiad di-arholiad: Dim cyfyngiad amser**<br>**40% o'r cymhwyster**<br>**96 marc** |
| **Crynodeb o'r asesu**<br>Bydd yr asesiad yn gofyn i ddysgwyr ymateb i ysgogiad a osodwyd gan CBAC. Bydd yr asesiad yn cael ei asesu gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC. Bydd yr ysgogiad ar gael ar safle Porth CBAC ym mis Medi y flwyddyn astudio gyntaf. Bydd yr ysgogiad yn cael ei newid bob tair blynedd.<br><br>Bydd dysgwyr yn dewis un briff o ddewis o dri. Ymgyrch farchnata ar gyfer y canlynol fydd y briff bob tro:<br><br>• ffilm newydd<br>• gêm fideo newydd<br>• cyfres newydd ar gyfer gwefan ffrydio. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

Cymhwyster llinol yw hwn.

Nid yw'n cynnwys haenau.

Gellid cwblhau Uned 2 ac Uned 3 unrhyw bryd yn ystod y ddwy flynedd a'u cyflwyno i CBAC ym mlwyddyn olaf y cwrs. Fodd bynnag, dylai canolfannau sicrhau mai dim ond pan fydd dysgwyr wedi ymgymryd â'r addysgu a'r dysgu angenrheidiol ac wedi datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth ofynnol y caiff yr asesiad o Uned 2 ac Uned 3 ei gwblhau. Rhaid asesu Uned 1 yn ystod blwyddyn olaf y cwrs.

Caiff y cymhwyster ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn 2028.

Rhif Cymeradwyo'r Cymhwyster: C00/5167/0

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# TGAU FFILM A CHYFRYNGAU DIGIDOL

## 1 CYFLWYNIAD

### 1.1 Nodau

Mae TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidolyn cefnogi dysgwyr i:

- archwilio a gwerthfawrogi cynhyrchion ffilm a chyfryngau digidol pobl eraill a datblygu eu doniau ffilm a/neu gyfryngau digidol eu hunain
- datblygu gwybodaeth, gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o ddefnydd ac effaith ffilm a chyfryngau digidol a sut mae ystyr yn cael ei gyfleu
- magu dealltwriaeth o genres a chyd-destunau ffilm a chyfryngau digidol
- ymateb i ffilm a chyfryngau digidol a grëwyd gan bobl eraill ac adfyfyrio arnynt, gan gymhwyso gwybodaeth am y cyd-destun i werthuso effeithiolrwydd syniadau a thechnegau a ddefnyddir i gyfleu ystyr
- datblygu sgiliau creadigol drwy arbrofi ac ymchwilio i gynllunio, dylunio a chynhyrchu cynhyrchion ffilm a/neu gyfryngau digidol effeithiol
- cymhwyso sgiliau technegol i ddangos rheolaeth
- adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain a'i fireinio a'i werthuso
- galluogi dysgwyr i archwilio themâu trawsbynciol hawliau dynol ac amrywiaeth, gan gynnwys themâu, cyfraniadau a phrofiadau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

Caiff y nodau hyn eu gosod gan Cymwysterau Cymru yn eu Meini Prawf Cymeradwyo.

### 1.2 Cwricwlwm i Gymru

Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yw sail y cymhwyster TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidol hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd. Yn ganolog i hyn mae'r egwyddorion cynnydd, yn ogystal â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r sgiliau a chysyniadau pwnc-benodol a amlinellir yn rhan 'Cynllunio eich Cwricwlwm' Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd yn ogystal â chyfleoedd i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad A, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Ystyriwyd hefyd lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodwyd ar dudalen 24; bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

Bydd y cymhwyster TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidol yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud y canlynol:

- Cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, gan roi cyfle i'r dysgwyr:
    - fynd i’r afael â genres, technegau, offer, deunyddiau a dulliau sy'n eu galluogi i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol
    - dod i ddeall y ffordd y mae’r celfyddydau mynegiannol yn cyfathrebu drwy ddulliau gweledol, corfforol, geiriol, cerddorol a thechnolegol
    - meithrin eu dychymyg a thynnu ar eu profiadau, eu sgiliau a’u doniau er mwyn iddyn nhw ddod yn artistiaid creadigol eu hunain
    - edrych ar waith o ddiwylliannau a chymdeithasau amrywiol, gan ddysgu am eu dylanwadau, eu hanesion a'u heffaith
    - ystyried gwaith creadigol mewn amrywiaeth o gyfryngau, ffurfiau, genres ac arddulliau
    - dysgu sgiliau pwysig mireinio a dadansoddi
    - adfyfyrio ar effeithiolrwydd eu gwaith eu hunain a gwaith eraill, gan gynnwys gwaith artistiaid amrywiol o Gymru a thu hwnt
    - bod yn arloesol a beiddgar, a chreu gwaith unigol
    - cyfathrebu drwy amrywiaeth o ffurfiau a chyfryngau digidol

- Cefnogi'r egwyddorion cynnydd[1] drwy annog dysgwyr i:
    - archwilio, profi, dehongli, creu ac ymateb i ystyr sy'n gynyddol gymhleth
    - datblygu dysgu cysyniadol sy'n gynyddol soffistigedig
    - datblygu defnydd mwy soffistigedig o sgiliau perthnasol a'r gallu i drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth bresennol i gyd-destun newydd.

- Cefnogi'r ystyriaethau pwnc-benodol ar gyfer Ffilm a Chyfryngau Digidol[2] drwy roi cyfle i ddysgwyr ystyried:
    - Agweddau ar gyn-gynhyrchu, cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu, gan gynnwys golygu, sinematograffi; sain, dylunio cynhyrchiad (gan gynnwys mise-en-scène), naratif, arddull, genre.
    - Cynhyrchion a ffurfiau: ffilm, teledu, sain (podledu a radio digidol), gemau fideo, gwefannau.
    - Dosbarthu ac arddangos: llwyfannau ar-lein (gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a gwefannau ffrydio), sinema, teledu digidol, llwyfannau gemau fideo.
    - Cynhyrchwyr a chynulleidfaoedd, gan gynnwys defnyddwyr, ‘cynhyrchwyr-ddefnyddwyr’, gwylwyr, crewyr cynnwys.
    - Negeseuon, moeseg a materion: cynrychioli pobl, hunaniaethau, lleoedd a chymdeithas, rhaniadau digidol, materion cyfryngau cymdeithasol (gan gynnwys preifatrwydd, tuedd a chamwybodaeth).

## 1.3 Dysgu blaenorol a dilyniant

Er nad oes gofynion dysgu blaenorol penodol, lluniwyd y cymhwyster yn bennaf ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed, gan adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol a ddatblygwyd drwy'r hyn a ddysgwyd ganddynt rhwng 3 ac 14 oed.

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Mae'r cymhwyster yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Ffilm neu'r Cyfryngau naill ai ar lefel UG neu ar lefel Safon Uwch. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

---

[1] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-celfyddydau-mynegiannol/egwyddorion-cynnydd/

[2] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-celfyddydau-mynegiannol/cynllunio-eich-cwricwlwm/#ystyriaethau-penodol-ar-gyfer-y-maes-hwn

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## 1.4 Oriau Dysgu dan Arweiniad

Lluniwyd y cymhwyster TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidol i'w gyflwyno dros gyfnod o 120 – 140 o oriau dysgu dan arweiniad. Cafodd y cymhwyster ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11.

## 1.5 Defnyddio iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Drwy ddiweddaru terminoleg, rydym yn adlewyrchu hunaniaethau unigol yn well ac yn meithrin parch a chywirdeb. Dylai'r iaith a ddefnyddir fod mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i ddiwygiadau pellach i sicrhau y cynrychiolir ac y cefnogir pob unigolyn yn gywir. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

## 1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i rywedd a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Fe'i lluniwyd gyda'r bwriad o osgoi, lle bo hynny'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwyr gael mynediad a llwyddiant oherwydd bod ganddynt nodwedd warchodedig benodol.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y nodweddion gwarchodedig yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Gwneir trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr cymwys fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd ac er mwyn eu galluogi i ddangos eu gwybodaeth a'u sgiliau heb newid gofynion yr asesiad.

Mae gwybodaeth am drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w cael yn y ddogfen ganlynol gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau (www.jcq.org.uk).

Byddwn yn dilyn egwyddorion y ddogfen hon ac felly, o ganlyniad i ddarpariaeth addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr sydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# 2 CYNNWYS Y PWNC

## Sut i ddarllen yr ymhelaethiad

Mae'r ymhelaethiad a welir yn y golofn 'Gwybodaeth Bellach' ar y dde yn defnyddio'r pedwar bonyn canlynol:

- Mae 'Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o' yn golygu nad oes angen i ddysgwyr ddeall pob agwedd ar y cynnwys dan sylw yn fanwl. Dylai athrawon gyfeirio at y dogfennau Canllawiau Addysgu i gael arweiniad pellach ynghylch y dyfnder a'r ehangder sy'n ofynnol wrth addysgu'r cynnwys hwn.
- Mae 'Dylai dysgwyr wybod' yn cael ei ddefnyddio pan mae gofyn i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol.
- Mae ‘Dylai dysgwyr ddeall’ yn cael ei ddefnyddio pan mae gofyn i ddysgwyr ddangos mwy o ddyfnder o ran gwybodaeth a dealltwriaeth, cymhwyso gwybodaeth i gyd-destunau cyfarwydd neu anghyfarwydd a gallu dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth at bwrpas penodol.
- Mae 'Dylai dysgwyr allu' yn cael ei ddefnyddio pan fo angen i ddysgwyr gymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth at sefyllfa ymarferol neu ddangos sgiliau a thechnegau ymarferol yn cael eu cymhwyso.

Mae 'gan gynnwys' yn golygu bod rhaid addysgu'r cynnwys dan sylw ac y gallai gael ei asesu.

Mae'r geiriau 'er enghraifft' neu 'megis' yn golygu mai arweiniad yn unig yw'r cynnwys dan sylw, a gellid dewis enghreifftiau eraill.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Uned 1

**Archwilio materion a chysyniadau allweddol**

Arholiad ar-sgrin
30% o'r cymhwyster
60 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:
- dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y caiff cynhyrchion ffilm a chyfryngau digidol eu llunio
- dangos ymwybyddiaeth o gyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol, hanesyddol a chynhyrchu y caiff cynhyrchion ffilm a chyfryngau digidol eu cynhyrchu ynddynt
- archwilio sut mae cynhyrchion ffilm a chyfryngau digidol yn cynrychioli hunaniaeth a lle
- archwilio materion moesegol yn ymwneud â llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac effaith hyn.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:
- **archwilio** – bydd dysgwyr yn cael cyfle i astudio ffilmiau a gemau fideo i ddeall sut y gellir creu ystyr drwy amrywiaeth o dechnegau. Bydd dysgwyr yn cael profiad o wahanol genres a ffurfiau cyfryngau a fydd yn ymdrin â chyd-destunau cyferbyniol. Bydd dysgwyr yn dod i wybod am gynhyrchion ffilm sydd wedi'u creu yng Nghymru neu wedi'u hysbrydoli gan Gymru yn ogystal â chynyrchiadau rhyngwladol a gweithiau a ysgrifennwyd gan amrywiaeth o awduron, gan gynnwys y rheini o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Bydd dysgwyr hefyd yn archwilio cysyniadau a materion allweddol yn ymwneud â newyddion ar-lein ac amrywiaeth o wahanol gyfryngau cymdeithasol.
- **ymateb ac adfyfyrio –** bydd dysgwyr yn cael y cyfle i ymateb i gynhyrchion ffilm a chyfryngau digidol, gan gynnwys cynnyrch / darn nad ydynt wedi'i weld o'r blaen, adfyfyrio ar effaith y cyfryngau cymdeithasol ac ymateb i faterion allweddol ym maes cynhyrchu cyfryngau cymdeithasol. Bydd dysgwyr yn gallu gwerthfawrogi cynhyrchion cyfryngau pobl eraill i ddatblygu eu doniau eu hunain yn Unedau 2 a 3. Bydd dysgwyr yn meithrin y sgiliau y mae eu hangen er mwyn archwilio themâu trawsbynciol hawliau dynol ac amrywiaeth, gan gynnwys themâu, cyfraniadau a phrofiadau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Meysydd cynnwys

| 1.1 Ffilmiau o Gymru a ffilmiau byd-eang | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:<br>1.1.1 Sut mae ffilm yn creu ystyr i gynulleidfaoedd<br>1.1.2 Sut mae ffilmiau'n adlewyrchu eu cyd-destun<br>1.1.3 Sut mae cynrychioliadau'n cael eu llunio mewn ffilmiau<br>1.1.4 Sut mae dyfeisiau naratif yn cael eu defnyddio mewn ffilmiau<br>1.1.5 Astudiaeth gymharol | |
| **Ffilmiau a osodwyd i'w hastudio**<br><br>Yn yr adran hon bydd y canolfannau'n dewis **un** pâr o ffilmiau o blith yr opsiynau isod: | |
| **Ffilmiau o Gymru** | **Ffilmiau Byd-eang** |
| *Patagonia* (Marc Evans, y DU, 2010), 15* **a** *Persepolis* (Marjane Satrapi, Vincent Paronnaud, Ffrainc, 2007), 12<br><br>*Pride* (Matthew Warchus, y DU, 2014), 15* **a** *Girlhood* (Celine Sciamma, Ffrainc, 2014), 15*<br><br>*Dream Horse* (Euros Lyn, y DU, 2020), PG **a** *Wadjda* (Hafiaa Al-Mansour, Saudi Arabia, 2012), PG<br><br>*Save the Cinema* (Sara Sugarman, y DU, 2021), 12 **a** *The Breadwinner* (Nora Twomey, Iwerddon, 2017), 12<br><br>*Y Sŵn* (Lee Haven Jones, y DU, 2023), 12A **a** *The Farewell* (Lulu Wang, China/UDA, 2019) PG<br><br>*Cyfrifoldeb y ganolfan yw penderfynu a ddylid dewis astudio ffilmiau sy'n addas ar gyfer gwylwyr 15 oed a darparu nodiadau cynnwys os oes angen.<br><br>Mae'r ffilmiau gosod yn cael eu hadolygu bob tair i bum mlynedd. Lle y bo'n briodol, byddant yn cael eu diweddaru i sicrhau bod y fanyleb yn dal i fod yn berthnasol. Bydd y canolfannau'n cael gwybod am newidiadau i'r manylebau drwy gylchlythyrau sy'n cael eu hanfon i'ch canolfan drwy'r Swyddog Arholiadau. | |
| Cynnwys | Gwybodaeth bellach |
| 1.1.1<br>Sut mae ffilm yn creu ystyr i gynulleidfaoedd | Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br><br>• confensiynau gwahanol genres ffilm<br>• codau a chonfensiynau ffilm: sut i nodi a dadansoddi gwahanol agweddau ar iaith ffilm a sut maen nhw'n helpu i lunio ystyr, gan gynnwys:<br>  • mise-en-scène, gan gynnwys:<br>    • iaith y corff a mynegiant wyneb<br>    • ble mae'r ffilm wedi'i gosod a/neu ei lleoliad a phropiau<br>    • safle<br>    • lliw<br>    • gwisgoedd, gwallt a cholur<br>  • golygu, gan gynnwys:<br>    • mathau o olygu (er enghraifft, toriad caled, toddi, pylu)<br>    • cyflymder golygu |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| | • sain, gan gynnwys:<br>  • sain gynefin<br>  • sain anghynefin<br>  • cerddoriaeth<br><br>• sinematograffi, gan gynnwys:<br>  • saethiadau ac onglau camera<br>  • symudiad camera<br>  • goleuo (er enghraifft, goleuo cywair uchel, goleuo cywair isel) |
| 1.1.2<br>Sut mae ffilmiau'n adlewyrchu eu cyd-destun | Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• sut mae ffilmiau'n adlewyrchu gwahanol gyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol, hanesyddol a sefydliadol.<br><br>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• dadansoddi a gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol, hanesyddol a sefydliadol ffilmiau. |
| 1.1.3<br>Sut mae cynrychioliadau'n cael eu llunio mewn ffilmiau | Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd cynrychioliadau cynhwysol ar gyfer grwpiau/unigolion amrywiol.<br><br>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• nodi sut mae gwahanol gynrychioliadau o hunaniaeth wedi cael eu llunio mewn ffilmiau, megis:<br>  • ethnigrwydd<br>  • rhywedd<br>  • lleol/rhanbarthol<br>  • rhywioldeb<br>  • dosbarth cymdeithasol<br>• nodi sut mae gwahanol gynrychioliadau o le wedi cael eu llunio mewn ffilmiau, gan gynnwys lleoliad a ble mae'r ffilm wedi'i gosod<br>• dadansoddi sut mae gwahanol gynrychioliadau wedi cael eu llunio mewn ffilmiau. |
| 1.1.4<br>Sut mae dyfeisiau naratif yn cael eu defnyddio mewn ffilmiau | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• nodi gwahanol ddyfeisiau naratif, gan gynnwys:<br>  • cyferbyniadau deuaidd<br>  • mathau o gymeriadau<br>  • uchafbwynt<br>  • esboniad ac agoriadau<br>  • digwyddiad sy'n ysgogi<br>  • datrysiad a diweddglo<br>  • plot<br>  • stori<br>  • strwythur tair act<br>• dadansoddi sut mae gwahanol ddyfeisiau naratif wedi cael eu defnyddio mewn ffilmiau er mwyn creu ystyr i gynulleidfaoedd. |
| 1.1.5<br>Astudiaeth gymharol | Dylai dysgwyr allu cymharu'r pâr o ffilmiau a ddewiswyd o'r rhestr o ffilmiau a osodwyd i'w hastudio, ac ystyried cynnwys a addysgir o 1.1.1 i 1.1.4 uchod. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **1.2 Chwarae gemau fideo** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:<br>1.2.1 Sut mae gemau fideo yn creu ystyr i chwaraewyr<br>1.2.2 Sut mae gemau fideo yn adlewyrchu eu cyd-destun<br>1.2.3 Sut mae cynrychioliadau'n cael eu llunio mewn gemau fideo<br>1.2.4 Sut mae chwaraewyr yn rhyngweithio ac yn ymateb i gemau fideo<br>1.2.5 Effeithiau cadarnhaol a negyddol gemau fideo | |
| Cynnwys | Gwybodaeth bellach |
| 1.2.1<br>Sut mae gemau fideo yn creu ystyr i chwaraewyr | Bydd dysgwyr yn astudio o leiaf un rhan a/neu olygfa gyswllt (*cutscene*), hyd at 10 munud o hyd, o gemau fideo sy'n briodol i'w hoedran a grëwyd o 2010 ymlaen.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall:<br>• codau a chonfensiynau gêm fideo sy'n briodol i'w hoedran a grëwyd o 2010 ymlaen<br>• sut mae'r gêm fideo maen nhw wedi'i hastudio yn creu ystyr drwy chwarae'r gêm, gan gynnwys:<br>  ◦ dyfeisiau naratif, er enghraifft<br>    ▪ plot<br>    ▪ creu bydoedd<br>    ▪ cymeriadu<br>    ▪ cyrchoedd (*quests*)<br>    ▪ llinellau stori canghennog.<br><br>  ◦ mise-en-scène, er enghraifft:<br>    ▪ lleoliad a phropiau<br>    ▪ lliw<br>    ▪ defnydd o graffeg.<br><br>  ◦ sain, er enghraifft:<br>    ▪ sain gynefin<br>    ▪ sain anghynefin<br>    ▪ cerddoriaeth<br>  ◦ sut mae'r uchod yn cyfleu genre. |
| 1.2.2<br>Sut mae gemau fideo yn adlewyrchu eu cyd-destun | Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• sut mae'r gêm fideo maen nhw wedi'i hastudio yn adlewyrchu gwahanol gyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol, cynhyrchu hanesyddol a sefydliadol.<br><br>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• dadansoddi a gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol, cynhyrchu hanesyddol a sefydliadol y gêm fideo maen nhw wedi'i hastudio. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| 1.2.3<br>Sut mae cynrychioliadau'n cael eu llunio mewn gemau fideo | Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd cynrychioliadau cynhwysol ar gyfer grwpiau/unigolion amrywiol.<br><br>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• nodi sut mae gwahanol gynrychioliadau o hunaniaeth yn cael eu llunio mewn gêm fideo<br>• dadansoddi sut mae gwahanol gynrychioliadau o hunaniaeth yn cael eu llunio mewn gêm fideo. |
| 1.2.4<br>Sut mae chwaraewyr yn rhyngweithio ac yn ymateb i gemau fideo | Dylai dysgwyr ddeall y gwahanol ffyrdd y mae chwaraewyr yn rhyngweithio ac yn ymateb i gemau fideo, megis:<br>• personoli (fel addasu, chwarae rôl, a chreadigrwydd sy'n caniatáu i chwaraewyr ffurfio eu profiadau eu hunain)<br>• cysylltiad cymdeithasol (fel rhyngweithiadau aml-chwaraewr, cymunedau ar-lein). |
| 1.2.5<br>Effeithiau cadarnhaol a negyddol gemau fideo | Dylai dysgwyr ddeall effeithiau cadarnhaol a negyddol gemau fideo mewn perthynas â'r canlynol:<br>• sut mae gemau fideo yn adlewyrchu eu cyd-destun<br>• sut mae cynrychioliadau'n cael eu llunio mewn gemau fideo<br>• sut mae chwaraewyr yn rhyngweithio â gemau fideo<br>• sut mae chwaraewyr yn ymateb i gemau fideo. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

### 1.3 Archwilio cysyniadau a materion allweddol yn ymwneud â newyddion ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:
1.3.1 Newyddion ar-lein
1.3.2 Sut mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ffurfio cymdeithas a diwylliant
1.3.3 Deall effaith y cyfryngau cymdeithasol a sut maen nhw'n cael eu rheoleiddio
1.3.4 Materion moesegol yn y cyfryngau cymdeithasol

| Cynnwys | Gwybodaeth bellach |
|---|---|
| 1.3.1<br>Newyddion ar-lein | Dylai dysgwyr wybod bod y term 'newyddion ar-lein' yn cyfeirio at gynnwys newyddion sy'n cael ei gyhoeddi a'i ledaenu drwy lwyfannau cyfryngau digidol sydd wedi'u cysylltu â'r rhyngrwyd.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• y newidiadau yng nghyd-destun lledaeniad newyddion, gan gynnwys:<br>  ◦ cyrhaeddiad y gynulleidfa<br>  ◦ cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a sefydliadol<br>  ◦ heriau i newyddion traddodiadol<br>  ◦ dioededd<br>  ◦ llwyfannau<br>  ◦ firoledd<br>• effaith newyddion ffug a chamwybodaeth<br>• beth yw newyddiaduraeth dinasyddion, a heriau i newyddiaduraeth newyddion traddodiadol<br>• sut mae defnyddwyr yn defnyddio ac yn rhyngweithio â newyddion<br>• sut mae **dwy** enghraifft o ddigwyddiadau newyddion cyfoes[3] yn cael eu cynrychioli ar draws gwahanol lwyfannau digidol (gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol). |
| 1.3.2<br>Sut mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ffurfio cymdeithas a diwylliant | Dylai dysgwyr wybod bod y term 'cyfryngau cymdeithasol' yn cyfeirio at lwyfannau sy'n galluogi defnyddwyr i greu a rhannu cynnwys a/neu rwydweithio'n gymdeithasol.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol gan ddefnyddio enghreifftiau cyfoes:<br>• pwysigrwydd ac effaith dylanwadwyr a chrewyr cynnwys ar lwyfannau<br>• rôl cyfryngau cymdeithasol wrth ysgogi newid cymdeithasol<br>• beth yw camwybodaeth a sut mae'n lledaenu ar gyfryngau cymdeithasol<br>• rôl ymddygiad defnyddwyr o ran lledaenu camwybodaeth<br>• sut gall defnyddwyr fod yn gynhyrchwyr-ddefnyddwyr yn ogystal â defnyddwyr cyfryngau. |

[3] o fewn dwy flynedd i'r dysgwyr astudio'r cymhwyster.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| 1.3.3<br>Deall effaith y cyfryngau cymdeithasol a sut maen nhw'n cael eu rheoleiddio | Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• yr angen am reoleiddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol<br>• sut mae'r cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio fel offeryn ar gyfer dylanwadu ar farn ac ymddygiad defnyddwyr<br>• y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) a botiau<br>• heriau cydbwyso rhyddid mynegiant â diogelu defnyddwyr.<br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o rôl fframweithiau cyfreithiol cyfredol ar gyfer rheoleiddio'r cyfryngau cymdeithasol, megis:<br>• Deddf Diogelwch Ar-lein 2023<br>• Yr Awdurdod Safonau Hysbysebu<br>• Deddf Diogelu Data 2018. |
| 1.3.4<br>Materion moesegol yn y cyfryngau cymdeithasol | Dylai dysgwyr ddeall materion moesegol sy'n ymwneud â'r canlynol:<br>• casglu a defnyddio data ac algorithmau ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol<br>• pryderon yn ymwneud â phreifatrwydd yng nghyd-destun y cyfryngau cymdeithasol, megis caniatâd ac anhysbysrwydd ac effaith rhannu manylion personol<br>• yr effaith y gall cyfryngau cymdeithasol ei chael ar gynulleidfaoedd gan gynnwys ar eu llesiant meddyliol. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Uned 2

**Strategaethau dosbarthu ac arddangos diwydiannau ffilm a chyfryngau digidol yng Nghymru**

Asesiad di-arholiad – yn seiliedig ar bortffolio
30% o'r cymhwyster
72 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:

- Archwilio'r ffordd y mae diwydiannau ffilm a chyfryngau digidol yn gweithredu yng Nghymru
- ymchwilio i'r ffordd y mae cynhyrchion ffilm a chyfryngau digidol yn cael eu cynhyrchu a'u dosbarthu
- datblygu sgiliau creadigol drwy greu strategaeth dosbarthu a strategaeth arddangos.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:

- **archwilio** – bydd dysgwyr yn cael y cyfle i archwilio sut mae diwydiannau ffilm a chyfryngau digidol yng Nghymru yn gweithredu drwy ymchwilio i gynhyrchion penodol, fel ffilm, teledu a gemau fideo sy'n cael eu cynhyrchu yng Nghymru. Bydd dysgwyr yn archwilio'r ffordd y caiff cynhyrchion eu creu er mwyn apelio at gynulleidfa darged ac yn archwilio eu prosesau cynhyrchu, dosbarthu ac arddangos. Bydd dysgwyr yn archwilio ac yn ymchwilio i arferion y diwydiant, rolau swyddi a llwybrau gyrfa ym myd y cyfryngau yng Nghymru.
- **ymateb ac adfyfyrio** – bydd dysgwyr yn cael y cyfle i ymateb i gynhyrchion wedi'u creu gan y cwmni cynhyrchu o'u dewis, ac adfyfyrio ar sut mae'r cynhyrchion hyn yn cael eu hariannu, eu dosbarthu a'u harddangos. Caiff dysgwyr eu hannog i adfyfyrio'n feirniadol ar godau genre a chonfensiynau'r cynnyrch a ddewiswyd ganddynt ac ystyried y ffyrdd y caiff cynhyrchion eu creu er mwyn apelio at gynulleidfaoedd targed. Bydd dysgwyr yn cael cyfle i ymateb i’r prosesau cynhyrchu sy’n rhan o gynnyrch y cyfryngau y maen nhw wedi’i ddewis ac adfyfyrio ar sut gallai’r prosesau hyn fod wedi cyfrannu at lwyddiant y cynnyrch.
- **creu** – bydd dysgwyr yn creu cysyniad newydd ar gyfer cynnyrch a chwmni cynhyrchu. Caiff dysgwyr eu hannog i gynllunio ac ystyried ffyrdd creadigol o ddosbarthu ac arddangos eu cynnyrch a chreu enghreifftiau gweledol o'u strategaethau sy'n annog creadigrwydd, gwreiddioldeb a'r dychymyg.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

**Meysydd cynnwys**

**2.1 Ymchwilio i gwmnïau cynhyrchu sydd wedi'u lleoli yng Nghymru**

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:
2.1.1 Cynhyrchu, dosbarthu ac arddangos
2.1.2 Ymchwilio i gynhyrchu ffilmiau a chyfryngau digidol
2.1.3 Creu strategaethau dosbarthu ac arddangos

| Cynnwys | Gwybodaeth bellach |
|---|---|
| 2.1.1<br>Cynhyrchu, dosbarthu ac arddangos | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o amrywiaeth o wahanol gwmnïau cynhyrchu ffilmiau a/neu gyfryngau digidol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, fel Bad Wolf, BBC Cymru Wales, Boom Cymru, Cardiff Productions, Chwarel, ITV Cymru Wales, Little Bird Films, S4C, Severn Screen, Triongl, Wales Interactive.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• sut mae cynhyrchu, dosbarthu ac arddangos yn gweithio mewn perthynas â chynhyrchu ffilmiau a/neu gyfryngau digidol<br>• sut mae gwahanol gwmnïau cynhyrchu ffilmiau a/neu gyfryngau digidol yng Nghymru yn cynhyrchu, dosbarthu ac arddangos eu cynnwys cyfryngol<br>• gwerth cynhyrchu, dosbarthu ac arddangos. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| 2.1.2<br>Ymchwilio i gynhyrchu ffilmiau a chyfryngau digidol | Dylai dysgwyr allu dadansoddi a gwerthuso sut mae cwmnïau cynhyrchu yng Nghymru yn gwneud y canlynol:<br>• defnyddio codau a chonfensiynau genre ar gyfer apelio at gynulleidfaoedd<br>• cynhyrchu cynhyrchion, gan ystyried agweddau megis:<br>  • syniad pwy oedd y cynhyrchiad yn wreiddiol<br>  • pwy sydd wedi ariannu'r cynhyrchiad<br>  • camau datblygu: cyn-gynhyrchu, cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu.<br><br>Dylai dysgwyr allu dadansoddi a gwerthuso sut mae rolau swyddi allweddol yn cyfrannu at lwyddiant cynhyrchion, er enghraifft:<br>• mewn rhaglenni ffilm a theledu:<br>  • cynhyrchydd<br>  • dylunydd set<br>  • actor.<br>• mewn gemau fideo:<br>  • rhaglennydd profiad gêm<br>  • animeiddiwr.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall sut mae'r uchod yn cyfrannu at lwyddiant y cynhyrchion.<br><br>Dylai dysgwyr allu dadansoddi a gwerthuso sut mae cwmnïau cynhyrchu yng Nghymru yn dosbarthu, marchnata ac arddangos cynhyrchion i'w hyrwyddo i gynulleidfaoedd targed, gan gynnwys:<br>• defnyddio strategaethau dosbarthu megis:<br>  • cyfweliadau gyda phersonél allweddol (er enghraifft, mewn cylchgronau, papurau newydd, ar y teledu ac ar bodlediadau)<br>  • strategaeth rhyddhau<br>  • ymddangosiadau a phartneriaethau<br>  • gwefannau hyrwyddo<br>  • rhaghysbysebion a phosteri.<br><br>• defnyddio strategaethau arddangos sy'n benodol i'r cyfrwng, megis:<br>  • ffilm (er enghraifft; rhyddhau i sinemâu, ffrydio a/neu ryddhau ar ffurf cyfryngau ffisegol)<br>  • gemau fideo (er enghraifft; ffrydio byw, arddangosiadau am ddim)<br>  • teledu/ffrydio (er enghraifft; hysbysebion, posteri). |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

<table>
<tr>
<td>2.1.3<br>Creu strategaethau dosbarthu ac arddangos</td>
<td>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:
<ul>
<li>cynnig cynhyrchion ar gyfer cwmni cynhyrchu newydd drwy:
<ul>
<li>greu datganiad cenhadaeth</li>
<li>creu taglin</li>
<li>nodi cynulleidfa darged.</li>
</ul></li>
<li>creu strategaeth dosbarthu a strategaeth arddangos sy'n cynnwys:
<ul>
<li>amlinelliad ar gyfer dwy enghraifft o elfen weledol a/neu glywedol o strategaeth dosbarthu, wedi'i chynhyrchu'n ddigidol, ar gyfer cwmni cynhyrchu newydd o un o'r strategaethau canlynol:
<ul>
<li>cynllunio ymgyrch hyrwyddo</li>
<li>cynllunio strategaeth cydweithredu a/neu bartneriaethau</li>
<li>cynllunio tudalen gwefan</li>
<li>cynllunio pecyn nwyddau.</li>
</ul></li>
<li>un enghraifft o elfen weledol a/neu glywedol o strategaeth arddangos, wedi'i chynhyrchu'n ddigidol, ar gyfer cwmni cynhyrchu newydd o un o'r strategaethau canlynol:
<ul>
<li>cynllunio gŵyl</li>
<li>cynllunio digwyddiad lleol</li>
<li>cynllunio amserlen rhyddhau</li>
<li>cynllunio profiad ymdrochol.</li>
</ul></li>
</ul></li>
<li>cyfiawnhau'r strategaethau a ddewiswyd, gan gynnwys effaith arfaethedig y strategaethau</li>
<li>ystyried sut mae'r strategaethau'n cyfleu ystyr i gynulleidfaoedd targed.</li>
</ul></td>
</tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Uned 3

**Creu cynnwys ffilm a chyfryngau digidol**

Asesiad di-arholiad – yn seiliedig ar aseiniad
40% o'r cymhwyster
96 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:

- datblygu sgiliau ymarferol creadigol drwy waith cynhyrchu
- adfyfyrio ar eu gwaith cynhyrchu eu hunain
- datblygu sgiliau personol o ran gwneud penderfyniadau a hyder.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:

- **archwilio** – bydd dysgwyr yn cael y cyfle i archwilio'r ffordd y caiff cynhyrchion ffilm a chyfryngau digidol eu creu. Bydd dysgwyr yn defnyddio eu gwybodaeth am gynhyrchion sydd eisoes yn bodoli mewn amrywiaeth o ffurfiau a genres i greu a datblygu eu cynhyrchion ffilm neu gyfryngau digidol eu hunain.
- **adfyfyrio** – bydd dysgwyr yn cael y cyfle i ymateb i friff a gaiff ei osod gan CBAC ac adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain drwy log adfyfyriol.
- **creu** – bydd dysgwyr yn cael y cyfle i greu cynhyrchion ffilm a chyfryngau digidol mewn ymateb i friff gosod.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

**Meysydd cynnwys**

<table>
<tr><th colspan="2">3.1 Creu cynnwys ffilm a chyfryngau digidol</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:<br>3.1.1 Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr<br>3.1.2 Datblygu a chymhwyso sgiliau creadigol drwy gynhyrchion ffilm a chyfryngau digidol<br>3.1.3 Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain</td></tr>
<tr><td>Cynnwys</td><td>Gwybodaeth bellach</td></tr>
<tr><td>3.1.1<br>Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr</td><td>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• datblygu syniadau sy'n cyfleu ystyr i gynulleidfa benodol yn seiliedig ar friff a osodwyd gan CBAC ar gyfer un o'r canlynol:<br>  • ffilm newydd<br>  • gêm fideo newydd<br>  • cyfres newydd ar gyfer gwefan ffrydio<br>• cynllunio syniadau mewn amrywiaeth o ddogfennau cyn-gynhyrchu; (er enghraifft: byrddau stori, sgriptiau, brasfodelau wedi'u llunio â llaw neu yn ddigidol) a fydd yn llywio'r darnau cynhyrchu terfynol.</td></tr>
<tr><td>3.1.2<br>Datblygu a chymhwyso sgiliau creadigol drwy gynhyrchion ffilm a chyfryngau digidol</td><td>Dylai dysgwyr allu datblygu eu syniadau er mwyn creu fersiynau terfynol o'r canlynol:<br>• cynnyrch clyweledol/clywedol:<br>  • rhaghysbyseb<br>  • rhan o olygfa allweddol<br>  • darn o gynnwys gan ddylanwadwr ar lwyfan fideo neu ffrydio<br>  • hysbyseb sain ar gyfer radio/podlediad<br>• cynnyrch digidol/ar-lein:<br>  • poster digidol<br>  • pecyn electronig digidol i'r wasg<br>  • gwefan weithredol<br>  • detholiad o sgript ffilm<br>  • sgript o olygfa gyswllt.<br><br>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gyfryngau digidol a chynhyrchion ffilm drwy eu cynhyrchiad eu hunain drwy:<br>  • gymhwyso confensiynau sy'n nodweddiadol o'r ffurf<br>  • cymhwyso confensiynau sy'n nodweddiadol o'r genre<br>  • cyfleu ystyr i gynulleidfaoedd drwy iaith ffilm a chyfryngau<br>  • llunio cynrychioliadau o hunaniaeth a lle yn y cynhyrchiad<br>  • ymgorffori dyfeisiau naratif yn eu cynhyrchiad.<br>• dangos eu sgiliau technegol a chreadigol yn y broses ôl-gynhyrchu drwy’r canlynol:<br>  • golygu'r cynhyrchiad ffilm neu gyfryngau digidol gan ddefnyddio meddalwedd golygu</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| 3.1.3<br>Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain, ei ddadansoddi a'i werthuso drwy gydol y broses gynhyrchu<br>• gwerthuso'n feirniadol effeithiolrwydd ac effaith eu dewisiadau creadigol sy'n gysylltiedig â'r canlynol:<br>    • eu dewisiadau creadigol a'u gwaith mireinio yn ystod y prosesau cyn-gynhyrchu, cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu<br>    • sut mae eu cynhyrchion yn bodloni confensiynau'r ffurf a'r genre (gan gynnwys sut maen nhw wedi defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gynhyrchion ffilm a/neu gyfryngau digidol eraill<br>    • sut bydd eu cynhyrchion yn apelio at y gynulleidfa darged. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu

Mae TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidol yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni chaiff y profiadau eu hasesu'n uniongyrchol):

- cyfleoedd i ymgymryd â phrofiadau ffilm a chyfryngau digidol proffesiynol, megis ymweld â stiwdios, ymweliadau gan weithwyr proffesiynol, neu ddosbarthiadau meistr – naill ai wyneb yn wyneb neu ar y sgrin
- meithrin hyder wrth roi a derbyn adborth, gan hybu meddwl annibynnol, gwreiddioldeb a gwydnwch creadigol
- cyfleoedd i ymchwilio, cymryd risgiau a goresgyn heriau creadigol
- profi rhyw fath o waith cydweithredol.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# 3 ASESU

Bydd y Pecyn Asesu yn cynnwys yr holl wybodaeth fanwl sy'n ymwneud ag asesu.

## 3.1 Amcanion Asesu a Phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr:

**AA1**
Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o brosesau a chynhyrchion ffilm a chyfryngau digidol.

**AA2**
Datblygu a chymhwyso technegau creadigol a sgiliau cynhyrchu mewn amrywiaeth o gyd-destunau / ffurfiau cyfryngau gwahanol.

**AA3**
Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill, a'i ddadansoddi a'i werthuso.

**AA4**
Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr mewn canlyniadau ffilm a/neu gyfryngau digidol.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac am y cymhwyster yn gyffredinol.

| | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **AA4** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | 15% | - | 15% | - | 30% |
| Uned 2 | - | 15% | 10% | 5% | 30% |
| Uned 3 | - | 15% | 5% | 20% | 40% |
| Pwysoli cyffredinol | **15%** | **30%** | **30%** | **25%** | **100%** |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## 3.2 Trefniadau ar gyfer asesiad di-arholiad

**Uned 2: Trosolwg**

Ar gyfer yr asesiad hwn, mae gofyn i ddysgwyr greu portffolio drwy gynnal ymchwil annibynnol a chynhyrchu astudiaeth achos sy'n archwilio llwyddiant **dau** gynnyrch a gynhyrchwyd gan gwmni yng Nghymru. Dylai'r dysgwyr asesu sut mae codau a chonfensiynau genre y cynhyrchion yn apelio at gynulleidfaoedd, archwilio'r prosesau sy'n ymwneud â'r cynhyrchu a'r strategaethau ar gyfer eu dosbarthu a'u harddangos. Mae'n ofynnol wedyn i ddysgwyr greu strategaeth dosbarthu a strategaeth arddangos ar gyfer cwmni cynhyrchu newydd o Gymru. Mae dwy dasg i'r dysgwyr eu cwblhau:

1. Ystyriwch **ddau** gynnyrch ffilm a/neu gyfryngau digidol a gynhyrchwyd gan gwmni sydd wedi'i leoli yng Nghymru a gwerthuswch eu llwyddiant. Archwiliwch sut mae'r cynhyrchion yn defnyddio codau a chonfensiynau'r genre, sut mae'r cynhyrchion yn cael eu cynhyrchu a'r strategaethau ar gyfer eu dosbarthu a'u harddangos.
2. Rydych wedi cael eich comisiynu i gynnig strategaeth dosbarthu a strategaeth arddangos ar gyfer cynnyrch newydd ar gyfer y cyfryngau sydd wedi'i gynhyrchu gan gwmni cynhyrchu wedi'i leoli yng Nghymru. Penderfynwch ar **un** cynnyrch yr ydych chi'n teimlo y gallai eich cwmni cynhyrchu ei gynhyrchu ac yna cynlluniwch sut bydd yn cael ei ddosbarthu a'i arddangos.

Gall dysgwyr gwblhau'r asesiad unrhyw bryd yn ystod y cwrs. Fodd bynnag, dylai canolfannau sicrhau bod asesiad yn cael ei gwblhau dim ond pan fydd dysgwyr wedi ymgymryd â'r addysgu a'r dysgu angenrheidiol ac wedi datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth ofynnol.

Mae'r asesiad yn cyfrannu 30% at radd gyffredinol y cymhwyster. Bydd yr uned yn cael ei marcio allan o gyfanswm o 72 marc.

Yr amser addysgu a argymhellir ar gyfer yr uned hon yw 36 awr a ddylai gynnwys addysgu a dysgu a chwblhau'r asesiad. Bydd gan ddysgwyr 18 awr i gwblhau'r asesiad.

Bydd yr asesiad yn cael ei gadw ar Porth CBAC.

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i chymedroli'n allanol gan CBAC.

**Uned 3: Trosolwg**

Ar gyfer yr asesiad hwn, mae gofyn i ddysgwyr wneud y canlynol:

1. Cynhyrchu **dau** ddarn cynhyrchu o'r briff a ddewiswyd. Dylai un darn cynhyrchu fod yn un clyweledol/clywedol a dylai'r llall fod yn ddigidol/ar-lein.
2. Cynhyrchu log adfyfyriol.

**Ysgogiad**

Bydd dysgwyr yn dewis **un** briff o restr o dri y bydd CBAC yn ei ddarparu bob tair blynedd. Ymgyrch farchnata ar gyfer y canlynol fydd y briff bob tro:
- ffilm newydd
- gêm fideo newydd
- cyfres newydd ar gyfer gwefan ffrydio.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

Bydd y canlynol yn newid bob tair blynedd:

- y gynulleidfa darged
- y rhestr o genres.

Mae'r asesiad yn cyfrannu 40% at radd gyffredinol y cymhwyster. Bydd yr uned yn cael ei marcio allan o gyfanswm o 96 marc.

Yr amser addysgu a argymhellir ar gyfer yr uned hon yw 48 awr a ddylai gynnwys archwilio, addysgu a dysgu, creu ac adfyfyrio. Nid oes cyfyngiad ar faint o amser mae ymgeiswyr yn ei dreulio ar yr asesiad.

Bydd yr ysgogiadau'n cael eu rhyddhau ar Porth CBAC ym mis Medi y flwyddyn astudio gyntaf, a bydd ysgogiadau newydd yn cael eu darparu bob tair blynedd.

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i chymedroli'n allanol gan CBAC.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# 4 CAMYMDDWYN

Cyn dechrau'r cwrs, bydd yr athro'n gyfrifol am roi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidol.

Ceir gwybodaeth am gamymddwyn yn ein Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC ar unwaith am bob achos o gamymddwyn posibl neu gamymddwyn gwirioneddol (camymddwyn@cbac.co.uk). Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y byddant yn cael eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# 5 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 5.1 Cofrestru

Cymhwyster llinol yw hwn y mae'n rhaid sefyll yr holl asesiadau ar ei gyfer ar ddiwedd y cwrs. Gellir cwblhau unedau asesiad di-arholiad yn gynharach yn y cwrs ond rhaid eu cyflwyno ar ddiwedd y cwrs.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfres yr haf tan ddiwedd oes y fanyleb hon. Bydd y cyfle asesu cyntaf yn haf 2028.

Gellir sefyll cymhwyster fwy nag unwaith.

Gall dysgwyr sy'n ailsefyll uned arholiad drosglwyddo'r marciau a enillwyd ganddynt am yr unedau asesu di-arholiad o'r tro cyntaf y gwnaethant roi cynnig ar y cymhwyster.

Gellir trosglwyddo marciau asesiadau di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb. Os bydd ymgeisydd yn ailsefyll uned asesiad di-arholiad (yn hytrach na throsglwyddo'r marc asesiad di-arholiad blaenorol), y marc newydd fydd yn cyfrif tuag at y radd gyffredinol, hyd yn oed os yw'r marc hwnnw'n is na'r cynnig blaenorol (oni bai bod y marc yn absennol).

Nodir y codau cofrestru isod.

| | Codau cofrestru | |
|---|---|---|
| | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| **CBAC TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidol** | 3670QS | 3670CS |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn nodi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

## 5.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TGAU yn cael eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A*–G, ac A* yw'r radd uchaf. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 |
|---|---|---|---|
| Themâu Trawsbynciol | | | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Agwedd cynaliadwyedd Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | ✓ | | |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | ✓ | ✓ | ✓ |
| Amrywiaeth | ✓ | ✓ | ✓ |
| Addysg Hawliau Dynol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith | ✓ | ✓ | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| Sgiliau Trawsgwricwlaidd - Llythrennedd | | | |
|---|---|---|---|
| Gwrando | ✓ | ✓ | ✓ |
| Darllen | ✓ | ✓ | ✓ |
| Siarad | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ysgrifennu | ✓ | ✓ | ✓ |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd - Rhifedd | | | |
| Datblygu Hyfedredd Mathemategol | | ✓ | |
| Mae deall y system rifau yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | | ✓ | |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli ffenomena yn y byd go iawn | | ✓ | ✓ |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i wneud casgliadau a phenderfyniadau gwybodus | | ✓ | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| Cymhwysedd Digidol | | | |
|---|---|---|---|
| Dinasyddiaeth | | ✓ | |
| Rhyngweithio a Chydweithio | | ✓ | ✓ |
| Cynhyrchu | | ✓ | ✓ |
| Data a Meddwl Cyfrifiannol | | ✓ | |
| **Sgiliau Cyfannol** | | | |
| Creadigrwydd ac Arloesi | | ✓ | ✓ |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynllunio a Threfnu | | ✓ | ✓ |
| Effeithiolrwydd Personol | ✓ | ✓ | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# Atodiad B: Rhestr Terminoleg

Isod mae rhestr terminoleg sydd wedi'i chynllunio i gynorthwyo canolfannau i baratoi dysgwyr ar gyfer yr asesiad arholiad yn Uned 1 a'r asesiad di-arholiad yn Unedau 2 a 3.

Nid yw'n cyd-fynd â meini prawf asesu penodol o fewn unedau unigol, ac mae wedi'i chynllunio i gynorthwyo dysgwyr i fynegi eu syniadau gan ddefnyddio terminoleg pwnc-benodol yn ogystal â chynnig amrywiaeth o gysyniadau, termau a syniadau ar gyfer cynnwys y byddai dysgwyr efallai yn dymuno eu hystyried a/neu eu cynnwys wrth archwilio a pharatoi eu gwaith ymarferol a damcaniaethol. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a gall canolfannau/dysgwyr archwilio technegau a/neu gonfensiynau priodol eraill.

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Cyferbynnu deuaidd | Techneg naratif lle mae gweithiau yn defnyddio syniadau a/neu gysyniadau gwrthgyferbyniol er mwyn dangos cyferbyniad. Er enghraifft, y da yn erbyn y drwg, y goleuni yn erbyn y tywyllwch ac ati. |
| Newyddiaduraeth gan ddinasyddion | Newyddion sy'n cael eu cynhyrchu neu eu creu gan ddefnyddwyr. Creu a rhannu gwybodaeth a/neu newyddion gan bobl nad ydynt yn newyddiadurwyr proffesiynol, yn aml drwy'r cyfryngau cymdeithasol. |
| Codau | Y systemau o arwyddion a ddefnyddir o fewn y cyfryngau i greu ystyr - e.e. codau technegol. |
| Confensiynau | Dyfeisiau a ddefnyddir gan y cyfryngau sy'n bodloni disgwyliadau'r gynulleidfa. Gall confensiynau gynnwys dyfeisiau fel saethiadau camera, propiau, cymeriadau ac ati. |
| Cyd-destun diwylliannol | Y gwerthoedd, y credoau, yr arferion a'r traddodiadau sy'n effeithio ar gynhyrchu'r cyfryngau a sut mae cynhyrchion y cyfryngau yn cael eu deall a'u dehongli. |
| Golygfa gyswllt (*cutscene*) | Golygfa mewn gêm fideo nad yw'n rhyngweithiol ac sydd fel arfer yn symud y plot yn ei flaen. |
| Sain gynefin | Sain sy'n bodoli ym myd y stori neu'r olygfa y gall y cymeriadau ei chlywed e.e. deialog, taranau. |
| Dosbarthu | Y broses o gyflwyno cynhyrchion y cyfryngau i gynulleidfaoedd, gan gynnwys yr ymgyrch farchnata. |
| Pecyn electronig i'r wasg | Casgliad digidol o ddeunydd sy'n hyrwyddo cynnyrch y cyfryngau a/neu artist. Gall pecynnau electronig i'r wasg gynnwys bywgraffiadau proffesiynol, ffotograffau, lluniau sy'n rhoi cipolwg y tu ôl i'r llenni, cyfweliadau, cysylltau cyfryngau cymdeithasol a chynnwys arall er mwyn helpu i hyrwyddo'r cynnyrch a/neu'r artist. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| Arddangosfa | Arddangos neu gyflwyno cynnyrch y cyfryngau'n gyhoeddus, fel dangosiad mewn gŵyl ffilmiau. |
| Genre | Y math neu gategori o gynnyrch y cyfryngau.<br><br>Mewn perthynas â **ffilm**, mae genre yn gategori neu ddosbarthiad sy'n nodi ffilmiau yn seiliedig ar eu helfennau naratif, themâu, tôn, lleoliad a dull arddulliadol. Mae'n helpu cynulleidfaoedd i osod disgwyliadau am y math o stori a'r profiad emosiynol fydd ar gael yn y ffilm.<br><br>Mewn perthynas â **gemau fideo**, mae genre yn ddosbarthiad sy'n grwpio gemau yn seiliedig ar eu mecaneg profiad gêm, amcanion a rhyngweithiadau chwaraewyr, yn hytrach na naratif neu leoliad yn unig (fel mewn ffilm). Mae'n helpu i ddiffinio sut mae gêm yn cael ei chwarae, pa sgiliau y mae eu hangen, a pha fath o brofiad y gall y chwaraewr ei ddisgwyl. |
| Ffilm fyd-eang | Ffilmiau sy'n cael eu cynhyrchu, eu dosbarthu a'u gwylio'n rhyngwladol ac sy'n ymwneud â chynulleidfaoedd o wahanol wledydd a diwylliannau. Fel arfer, mae gan y ffilmiau hyn themâu a/neu gymeriadau cyffredinol sy'n adlewyrchu profiadau pobl o'r mwyafrif byd-eang. |
| Cyd-destun hanesyddol | Y cyfnod amser a'r digwyddiadau lle mae cynnyrch y cyfryngau yn cael ei greu a/neu ei osod a sut mae hyn yn effeithio ar y ffordd mae cynhyrchion y cyfryngau yn cael eu deall a'u dehongli. |
| Cyd-destun cynhyrchu hanesyddol | Sut mae cynhyrchiad y gêm fideo yn adlewyrchu'r cyfnod amser y cafodd ei chynhyrchu ynddo. |
| Y cyd-destun sefydliadol | Y strwythurau a'r sefydliadau (e.e. cwmnïau cyfryngau) sy'n effeithio ar sut mae cynnyrch y cyfryngau yn cael ei greu a'i ddehongli. |
| Mise-en-scène | Sut mae'r ffordd y mae popeth yn cael ei osod yn y ffrâm yn creu ystyr e.e. lleoliad, gwisgoedd, propiau, lliw, goleuo, iaith y corff a'r safle. |
| Datganiad cenhadaeth | Datganiad byr sy'n rhoi disgrifiad ysgrifenedig o bwrpas, nodau a gwerthoedd sefydliad, cwmni neu broject. |
| Dyfeisiau naratif | Yr offer a/neu'r technegau a ddefnyddir i adrodd stori neu i lunio sut mae'n cael ei hadrodd. |
| Sain anghynefin | Sain sy'n bodoli y tu allan i fyd y stori neu'r olygfa na all y cymeriadau ei chlywed. Fel arfer, caiff sain anghynefin ei hychwanegu yn ystod y broses ôl-gynhyrchu e.e. trosleisio, trac sain. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| Newyddion ar-lein | Cynnwys newyddion sy'n cael ei gyhoeddi a'i ledaenu drwy lwyfannau cyfryngau digidol sydd wedi'u cysylltu â'r rhyngrwyd. |
| Cynhyrchwyr-ddefnyddwyr | Unigolyn sy'n cynhyrchu ac yn defnyddio cynnwys neu gynhyrchion y cyfryngau. Mae'r term hwn yn cyfuno rolau y 'cynhyrchydd' a'r 'defnyddiwr' ac yn cyfeirio at unigolion sy'n creu eu cynnwys eu hunain. |
| Cynrychioliad | Y ffordd y mae syniadau, pobl, lleoedd a digwyddiadau yn cael eu llunio yn y cyfryngau. |
| Sgript ffilm | Sgript sydd wedi'i hysgrifennu gan sgrin-awdur ar gyfer ffilm neu sioe deledu sy'n adrodd y stori heb unrhyw nodiadau cyfarwyddo ar gyfer y camera. |
| Cyd-destun cymdeithasol | Yr amgylchedd neu'r sefyllfa gymdeithasol, gan gynnwys ffactorau gwleidyddol ac economaidd, sy'n effeithio ar y ffordd mae cynhyrchion y cyfryngau yn cael eu deall a'u dehongli. |
| Taglin | Ymadrodd neu ddywediad bachog y mae cwmni'n eu defnyddio wrth hysbysebu i gyfleu neges y cwmni. |
| Newyddion traddodiadol | Cynnwys newyddion sy'n cael ei gyhoeddi a'i ledaenu drwy sianeli cyfryngau sefydledig fel papurau newydd, teledu a radio. |
| Ffilm o Gymru | Ffilm sy'n cynrychioli pobl Cymru, diwylliant Cymru a/neu hunaniaeth Gymreig. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.